OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1632 (Cy. 211)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy i Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Awst 2015* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) ("y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2015 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy i Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 21:00 o'r gloch ar 1 Medi 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r draffordd” (“*the lengths of the motorway*”) yw’r darnau hynny o’r draffordd rhwng Cyffordd 23a (Magwyr) yn Sir Fynwy a Chyffordd 28 (Parc Tredegar) yn Ninas Casnewydd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Awst 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn o’r gerbytffordd tua’r gorllewin sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 23a (Magwyr) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 24 (y Coldra).

Y darn o’r gerbytffordd tua’r dwyrain sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth

Gyffordd 24 (y Coldra) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 23a (Magwyr).

Y darn o’r gerbytffordd tua’r gorllewin sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 24 (y Coldra) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar).

Y darn o’r gerbytffordd tua’r dwyrain sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 24 (y Coldra).